



Croeso i Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG) Morfa Dyffryn

Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Morfa Dyffryn yn un o'r systemau twyni tywod pwysicaf yng Nghymru oherwydd ei thywod noeth a chynefinoedd bywyd gwyllt.

Gyda'i gilydd, mae Morfa Dyffryn a Morfa Harlech i'r gogledd yn ffurfio ardal barhaus, fwy neu lai, o dwyni tywod ar hyd arfordir gogledd Meirionnydd.

Mae twyni fel y rhain gyda'u hardaloedd tywod noeth yn dod yn gynyddol brin. Maent yn cynnig cartref i blanhigion ac anifeiliaid prin a hynod arbenigol.

Welcome to Morfa Dyffryn National Nature Reserve (NNR)

Morfa Dyffryn National Nature Reserve is one of the most important dune systems in Wales because of its bare sand and wildlife habitats.

Together, Morfa Dyffryn and Morfa Harlech to the north form an almost continuous area of sand dunes along the north Meirionnydd coast.

Dunes like these with bare sand areas are becoming increasingly rare. They provide a home for rare and highly specialised plants and animals.

Rydych yma You are here



Gwenynen durio
Mining bee

Copwr bach
Small copper



Chwilen deigr y twyni - Mae'r ysglyfaethwr prin ac arbenigol hwn yn bwydo ar bryfed llai
Dune tiger beetle - This rare sand specialist predator feeds on smaller insects



Capiau cwyr
Wax cap

Corseren y ddaear
Dwarf earthenware

Beth allwch chi ei weld o'r fan hon?

Dilynwch y llwybr i'r traeth. Ar eich ochr dde, i'r gogledd, y mae'r warchodfa gyfan i'w gweld.

Ar ddiwrnod clir gallwch fwynhau golygfeydd o Ben Llŷn a chipolwg o Ynys Enlli o'r darn hwn o arfordir Meirionnydd.

Cofiwch fod rhan o'r warchodfa yn 'draeth noethlymuno' dynodedig a cheir arwyddion priodol. Efallai y gwelwch chi *Homo sapien* noeth yn yr ardal hon - rydym wedi'ch rhybuddio chi!

What can you see from here?

Follow the path to the beach. On your right, to the north stretches the whole of the reserve.

On a clear day enjoy views of the Llŷn Peninsula and a glimpse of Bardsey Island from this stretch of the Cardigan coast.

Please note that part of the reserve is a designated 'naturist beach' and is signed accordingly. You may spot a bare-skinned *Homo sapien* in this area - you have been warned!

Nythod ar y traeth?


Mae nythod y cwtiad torchog wedi eu cuddio ymysg y gro yn yr ardal hon felly os gwelwch yn dda **helpwch hwy drwy gadw eich ci ar dennyn** rhwng Mawrth a Gorffennaf.

Nests on the beach?

Yes - ringed plover nests are camouflaged amongst the pebbles in this area so please could you **help them by keeping your dog on a lead** from March - July.



ANDREAS TREITTE



Mae'r tirlun arfordirol trawiadol hwn yn un o'n trysorau naturiol cyfoethocaf ac yn gartref i ystod eang o blanhigion ac anifeiliaid, a'r cyfan wedi'u haddasu'n benodol i fywyd ar ymyl y môr.

Tirlun sy'n newid

Mae'r gwynt yn symud ac yn ailffurfio'r twyni yn gyson. Er y gallai tywod noeth, agored ymddangos yn ddigroeso, dim ond yn y cynefin hwn y gall rhai pryfed prin, gan gynnwys chwilen deigr y twyni, croesi. Ar ddiwrnod braf yn y gwanwyn, efallai y byddwch chi'n ddigon ffodus i weld rhywbeth prin arall, gwenynen durio'r gwanwyn, yn bwydo ar baill y corhelyg.

Ffyngau bendigedig

Mae'r glaswelltiroedd tywodlyd yn cynnig yr amodau tyfu perffaith ar gyfer rhai ffyngau twyni tywod trawiadol ac unigryw fel y gyfareddol gorseren y ddaear, capiau cwyr amryliw, ffyngau cwrwl a phastwn, tafodau'r ddaear ac ambarello'r bwgan.

Blodau'r twyni yn denu glöynnod byw

Mae'r ardaloedd gwastad rhwng y twyni yn wlyb iawn yn ystod y gaeaf ac yn aml yn aros yn llaith ymhell i mewn i'r haf. Mae'r rhain yn datblygu arddangosfa liwgar o flodau gwyllt sy'n golygu bod Morfa Dyffryn yn lle gwyth i löynnod byw a phryfed. Edrychwch am gopwr bach, y fantell paun, a gweirlöyn y perthi neu wyfynod sy'n hedfan yn y dydd fel teigrod y benfelen a'r coedwyr.

This impressive coastal landscape is one of our richest natural treasures and home to a wide range of plants and animals, all especially adapted to life at the edge of the sea.

A changing landscape

The wind constantly moves and reshapes the dunes. Bare, open sand may look inhospitable, but some scarce insects including the fearsome dune tiger beetle can only survive in this habitat. On a sunny spring day you may be lucky enough to see another rarity, the vernal mining bee, feeding on the pollen of creeping willow.

Famous for fungi

The sandy grasslands offer perfect growing conditions for some impressive and unique sand dune fungi such as the fascinating dwarf earthenware, multi-coloured waxcaps, coral and club fungi, earthtongues and parasols.

Blooming 'slacks' bring in butterflies

The flat areas between dunes (slacks) become waterlogged in winter and often stay damp well into summer. These develop a colourful display of wildflowers which make Morfa Dyffryn a great place for butterflies and insects. Look out for the small copper, peacock, and gatekeeper; or day-flying moths such as the cinnabar and forester.


Rydych yma You are here

ER EICH DIOGELWCH

- **Peidiwch â gwneud tyllau** neu dwnell yn y **twyni tywod** - gall y tywod syrthio arnoch a'ch mygu
- Byddwch yn ofalus o **ffensys sydd wedi eu claddu'n rhannol** yn y twyni - gallant fod yn beryglus
- **Cadwch eich cŵn ar dennyn yn ystod tymor magu adar Mawrth - Gorffennaf**, mae cwtiaid torchog yn nythu ar y traeth ac adar eraill yn y twyni ac ar y morfa heli
- **Peidiwch â chyffwrdd â gweddillion milwrol - fe allant ffrwydro!** Ffoniwch yr Heddlu ar 999 pe baech yn gweld unrhyw beth amheus
- Mae **anifeiliaid** yn pori'r twyni a'r morfa heli - cadwch bellter rhyngddoch chi a hwy

FOR YOUR SAFETY

- **Do not dig** holes or tunnels in the **sand dunes** - sand can collapse and suffocate you
- Beware of **partially buried fences** in the dunes - they can be dangerous
- **Please keep dogs on leads during the bird breeding season March - July**, ringed plovers nest right on the beach and other birds nest in the dunes and saltmarsh
- **Do not touch any military debris - it may explode!** Report any suspect objects to the Police by calling 999
- **Livestock** graze the dunes and saltmarsh - please keep away from grazing animals



LAWRLWYTHWCH EIN **HAPIAU DI-DAL** ar gyfer Android ac iPhone
DOWNLOAD OUR **FREE APPS** for Android and iPhone

CYMRU WALES
PlacesToGo
I ganfod lleoedd eraill ar dderchog CNC y gellir ymweld â hwy yng Nghymru. To find other great NRW places to visit in Wales.

CYMRU WALES
PlaceTales
I ganfod nodweddion hynod ddifyr yng nghoedwigoedd CNC a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol. To discover fascinating features in NRW forests and National Nature Reserves.